# GEIRIAU

I'w canu yn ystod

CYFARFODYDD

# CYMANFA DDIRWESTOL

Deheudir Cymru,

*GORPH. 14 a 15, 1875.*

## Ton,—"Gwenith Gwyn."

Cydweithiwn oll trwy gymhorth gras,
Yn un gymdeithas hylwydd ;
Sobreiddio'r meddwon fyddo'n nôd,
A rhown y clod i'r Arglwydd :
Ein hymdrechiadau llwydded Ior—
O fôr i fôr ymledwn ;
O byddwn filwyr dewr a da,
A'r gelyn a orchfygwn.

## Ton,—" Harlech."

1 Gelyn cryf sy'n galw eto
Feibion Cymru i fyddino,
Ac yn enw Duw i daro,
Taro dros ein gwlad;
Medd'dod yw ein gelyn creulon,
Mae ei gledd yn difa'n dynion,
Ac yn goch gan waed ein meibion,
Gymry, dewch i'r gad!
Merwin gri y meirwon,
Gwaedd ac ing y gweddwon ;
Gwaed ein plant, ar fryn a phant,
A lefant arnom weithion,
Dd'od i ddial eu camwri,
Ac i achub llu aneiri'
Sydd yr awrhon mewn cadwyni,
Gymry ! dewch i'r gad.

2 Yn myddinoedd Temlwyr Cymru,
Codwn heddyw i gyhwfanu,
Faner a fydd byth i fyny,—
Baner Dirwest lân;
Gweled enw'n gwlad yn gwaedu,
A'i hanrhydedd wedi ei fathru,
Yn ein henaid sy'n enynu
Dial megys tân ;

Deffro, Gymru, deffro,
Taro, gleddyf, taro,
Lawr, i lawr, i lawr, i lawr,
Ein gelyn mawr raid gwympo;
Yna sobrwydd daena'i radau
I brydferthu gwlad ein tadau,
Iechyd, llawnder, a gwynfydau,
Doniau Dirwest lân.

## Ton,—"Fwyalchen."

1 GWEL'D bachgen prydweddol yn eistedd,
Heb gyffro mewn tafarn gerllaw,
Yn nghwmni y meddwon anfoesol,
Yn gollwng rhegfeydd yn ddidaw;
Yn adrodd niweidiol chwedleuon,
I glyw ei gyfeillion yn ffri,
Nes hollol anghofio ei gartref,
"Ni fynwn er dim, fynech chwi?"

2 Ei wel'd yn dod adref nos Sabboth
Yn feddw o bentref y llan,
Yn rhuthro i bawb a'i cyferfydd,
A'i lwon yn adsain trwy'r fan;
Yn sefyll heb wrido na chrynu,
Yn ngwyneb rhybuddion diri'
Ei riaint, â dagrau tryloewon,
"Ni fynwn er dim, fynech chwi?"

3 Ei wel'd yn parhau mewn drygioni,
Yn ymladd a meddwi o hyd,
Nes gyru ei fam mewn gofidiau,
I waeled y beddrod o'r byd;
Ei wel'd yn gwynebu yr eilfyd,
Yn feddwyn dibarch a difri,
A chlywed ei iaith y pryd hyny,
"Ni fynwn er dim, fynech chwi."

## Ton,—"Codiad yr Hedydd."

1 AWN, awn yn wrol lu,
Mae nerthoedd nefoedd gyda ni,
A'n brenin ydyw Duw;
Awn, awn, gorchfygu raid
O'r feddwol annaearol haid,
Ni welir un yn fyw;
Awn i'r frwydyr, bawb yn bybyr,
Rhwyga'r awyr gan ein cân,
Dacw'r gelyn, yn ei erbyn
Ymosodwn fawr a man;

Pob un a'i gledd, nid oes dim hedd
   Heb fuddugoliaeth lân.

2 Yn bloeddio 'rym i'r gad,
Adseinia broydd a bryniau'n gwlad
   Mewn cydymdeimlad llon;
Mae'r gelyn yn llesgau,
Ymgilia i'w uffernol ffau,
   A'i friwiau'n difa'i fron :
Caerau dinas teyrn galanas,
Er eu nerth yn syrthio sydd,
Cleddir medd'dod mewn ffieidd-dod,
Daw yr hynod ddedwydd ddydd,
Cawn orfoleddu ar ei fedd,
   O ryfedd—bawb yn rhydd.

## Ton,—"Llwyn Onn."

A LAESWN ni ddwylaw yn nghanol y rhyfel,
   Tra'r gelyn yn erlid, a fynwn ni hedd ?
Tra llidiart y fynwent, a'i 'sgrech ar ei hechel,
   Wrth dderbyn y meddwon i 'stafell y bedd ?
Mae'r blodau sy'n tyfu ar feddrod y meddwyn
   Yn gollwng eu dagrau tan gysgod yr yw,
A'r gwynt wrth fyn'd heibio, fel taran yn gofyn,
   "Pa un ai moesoldeb ai medd'dod gaiff fyw ?"

Yw llys y llywodraeth rhy uchel ei urddas
   I roi baner dirwest ar uchaf ei dwr ?
Ai tân gaiff ddinystrio holl lysoedd y deyrnas,
   Tra nentydd yn ymyl yn orlawn o ddw'r?
A laeswn ni ddwylaw cyn cael goruchafiaeth ?
   Na, gweithiwn yn ddewr, a gweddiwn ar Dduw;
A'r Arglwydd a etyb yn nhrefn ei Ragluniaeth,
   "Pa un ai moesoldeb ai medd'dod gaiff fyw ?"

## Ton,—"Ar hyd y Nos."

1 TEITHIA'N'mlaen, Ddiwygiad grymus,
      Dos yn dy nerth ;
Trwy yr ardal maith a dyrus,
      Dos yn dy nerth ;
Dryllia gestyll cedyrn meddwdod,
Sycha'n llwyr y bîr a'r gwirod,
Symud fyrdd o freichiau trallod.
      Dos yn dy nerth;

2 Cei o'th blaid yr oes sy'n codi,
Dos yn dy nerth ;
Merched mwyn a'r meibion heini',
Dos yn dy nerth ;
Os gwrthoda'r gwyr a'r tadau,
Y mae'n dyfod ar eu sodlau,
Filwyr it' yn fyrdd myrddiynau.
Dos yn dy nerth.

3 Y mae'r nefoedd yn dy bleidio,
Dos yn dy nerth ;
A goreuon byd yn gryno,
Dos yn dy nerth ;
Adsain mawl o wlad a thalaeth,
Gan aneirif lu Temlyddiaeth,
Wedi cael y fuddugoliaeth
Dos yn dy nerth.

---

## Ton,—"Merch Megan."

MAE'R meddwyn yn ddyn er gwaethed ei agwedd,
Mae mawredd o'i fewn er dyfned ei fan,
Rhown iddo ein llaw, gweinyddwn ymgeledd,
Cyfodwn y gem o'r domen i'r lan ;
Cyffyrddwn a'i galon, deffrown ei ddynoliaeth,
I weled a theimlo ei mawredd ei hun,
Arweiniwn ei fryd hyd lwybr gwaredigaeth,
Dangoswn y ffordd---mae'r meddwyn yn ddyn.

Mae'r meddwyn yn ddyn, rhown waith yn ei
Goleuer ei ben, a thanier ei fryd, [ddwylaw,
Eneidiau ar dân sydd wedi goddeithio,
A llosgi i'r llawr anialwch y byd ;
Gall meddwyn truenus fod eto'n ddefnyddiol,
A cherfio ar ereill ei ddelw ei hun,
Daw'n fendith i'r byd o'i ddyfnder dinystriol,
Rhown iddo ein braich, mae'r meddwyn yn ddyn

Mae'r meddwyn yn ddyn---dros ddyn rhoes yr
Ei fywyd i lawr i'w wneuthur yn fyw, [Iesu
Daeth Arglwydd y Nef i'r byd i'w waredu,
Rhown ninau ein llaw yn nwylaw ein Duw;
Gwaredu trueiniaid o bwll llygredigaeth,
Yw ymffrost ardderchog Jehofah ei hun,
Cydweithiwn â Duw i ddwyn iachawdwriaeth
I'r meddwyn tylawd—mae'r meddwyn yn ddyn.

---

... y Tônau a'r Geiriau i'w cael yn
...ddor y Deml."

x205199347